SAUNDERS, DAVID, ' Il ' ('Dafydd Glan Teifi '; 1769 - 1840), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, bardd, a llenor

Enw: David Saunders
Ffugenw: Dafydd Glan Teifi
Dyddiad geni: 1769
Dyddiad marw: 1840
Priod: Catherine Saunders
Priod: Margaret Saunders
Plentyn: Thomas Saunders
Rhiant: Elinor Saunders
Rhiant: Thomas Saunders
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, bardd, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd Ionawr 1769 yn Undergrove, Llanbedr-Pont-Steffan, mab hynaf Thomas ac Elinor Saunders, ac yr i Evan Saunders a nai i David Saunders ' I ' (gweler dan Saunders, Evan), ill dau yn bregethwyr yn Aberduar. Cafodd ei addysg mewn ysgolion lleol, gan gynnwys ysgol Dafydd Jones, Dolwlff, Llanwennog, a bedyddiwyd ef gan Timothy Thomas, Aberduar, Gorffennaf 1784. Yr oedd yn aelod o deulu cefnog, ac enwir ef ymhlith bwrdeisiaid cyntaf Llanbedr-Pont-Steffan wedi'r siartr newydd yn 1814. Dechreuodd bregethu yn Aberduar yn 1796, ac ordeiniwyd ef yn gydweinidog yr eglwys, 22 Hydref 1800. Symudodd i gapel Seion, Merthyr Tydfil, 13 Gorffennaf 1815, ' heb ein cydsyniad fel eglwys ' yn ôl llyfr Aberduar (adysgrif yn N.L.W. MS. 10785), gan gymaint ei barch, ac yno y bwriodd weddill ei oes hyd ei farwolaeth, 4 Chwefror 1840. Claddwyd ef yng nghapel Seion. Cafodd weinidogaeth arbennig o lewyrchus ym Merthyr Tydfil, a chofnodir iddo fedyddio 510 o aelodau newyddion yn y 21 mlynedd o 1816 i 1836.

Priododd (1), 23 Mehefin 1815, Margaret Jenkins, gwraig weddw o Ddolwlff, Llanwennog, a ganed eu hunig blentyn, Thomas, 19 Awst 1816. Bu farw y fam Ebrill 1817, a chollwyd y mab yn nociau Bryste, 12 Hydref 1837, a chladdwyd Mary ei faban yntau yng nghapel Seion, 12 Medi 1837, yn 10 mis oed; (2), 9 Mehefin 1829, Catherine Joseph, gwraig weddw arall, o Ferthyr Tydfil (bu farw 1841?). Y mae ei ewyllys (dyddiwyd 29 Mawrth 1838), profwyd 30 Mawrth 1840), yn sôn am dai o'i eiddo yn Merthyr Tydfil, ac yn cyfeirio at ei wraig Catherine, ei frawd John, ei fab Thomas ('who is missing and reputed to be dead'), ei chwiorydd Mary, Sarah, Elinor, Gwen, ei chwaer arall Martha (wedi marw) a'i phlant hithau Thomas Morgan a Mary Evans, a'i nith Elinor Lloyd.

Am ei lafur llenyddol y cofir ef yn bennaf. Yr oedd yn hyddysg yn y cynganeddion, fel y dengys ei ymarferiadau a'i nodiadau yn N.L.W. MS. 3260, a chyhoeddwyd toreth o'i waith, caeth a rhydd, megis *Ychydig o Bennillion Profiadol yn cynnwys Griddfaniad Hiraethlawn Dafydd Saunders*, 1815; *Dwy Awdl: y gyntaf ar Elusengarwch, ... yr ail, ar Farwolaeth Syr Thomas Picton*, 1820; *Awdl ar Fordaith yr Apostol Paul ... at yr hyn yr ychwanegwyd ychydig o hymnau newyddion*, 1828; a marwnadau i Samuel Breeze, Castellnewydd Emlyn, 1812; Zecharias Thomas, Aberduar (ail arg.), 1816; a Joseph Harris ('Gomer'), 1826. Argraffodd Joseph Harris ('Gomer') nifer o'i emynau yn *Casgliad o Hymnau*, 1821, a chadwyd eraill o'i gynhyrchion mewn tri llyfr personol yn ei law ei hun (NLW MS. 791, 7141-2). Cyhoeddodd hefyd amryw o weithiau diwinyddol, megis *Sylwadau Difrifol*, 1821; *Sylwadau Pellach*, 1822; a *Rhifyn yr Ail. Sylwadau Difrifol*, 1822, ar y pwnc o fedydd babanod, yn ateb i Thomas Powel, Aberhonddu; *Ychydig o Nodiadau ar y Llyfryn a elwir Traethawd Byr, ac Undod a Phenaduriaeth yr un Duw y Tad, etc, gan R. Wright*, 1816; a thri chyfieithiad o'r Saesneg - *Traethawd ar Deyrnas Crist* (o waith Abraham Booth), 1810; *Traethawd ar Ddigofaint*, (o waith John Fawcett), 1826; a *Golwg Gyffredinol ar Feddyliau a Phrawf ... am Fedydd* (o waith Thomas Westlake), 1828. Cadwyd nodiadau pregethau o'i eiddo yn N.L.W. MS. 7141-2, llythyr, 1817, o'i eiddo yn N.L.W. MS. 7165, ac un arall, 1807, o'r pwys mwyaf yn Cwrtmawr MS. 818, yn adrodd hanes ei genhadaeth Fedyddiedig yn Deptford (arg. yn Spinther, iv, 403-4).

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

John Williams, *Cofiant y diweddar Barchedig Dafydd Saunders ... yn nghyd a'i farwnad* (Aberystwyth 1842), 1842

Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru (1839), 334, 584

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, iv, 402-4

Seren Gomer, 1840, 95; 1829, 252

Greal y Bedyddwyr (1827–37), 1830, 39, 52, 66

G. Eyre Evans, *Lampeter* (1905), 44, 117, 176, 183

NLW MSS 791, 1907, 3260, 7141-2, 7165, 8705, 10785

H. Blackwell, NLW MS 9273A: A Dictionary of Welsh Biography

N.L.W. *Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 818

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898) (copi personol J. H. Davies)

W. A. Griffiths, *Hanes Emynwyr Cymru* (Caernarfon 1907), 220-1

Williams, *Enwogion Ceredigion* (1869), 221-2

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 539-41

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361438

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu